

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Argaeledd Simvastatin Simvastatin Availability

Q7 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on the over the counter availability of Simvastatin? (OAQ39150)

C7 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae Simvastatin ar gael dros y cownter? (OAQ39150)

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): The availability of over-the-counter medicines is not devolved to the Assembly, but is the responsibility of the Medicines and Healthcare products Regulatory Agency. Simvastatin, a cholesterol lowering drug, is available at a relatively low dose from pharmacists who are professionally qualified and who can ensure that the drug is sold appropriately.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Nid yw argaeledd meddyginiaethau dros y cownter wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, ond cyfrifoldeb yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd ydyw. Mae simvastatin, cyffur sy'n gostwng colesterol, ar gael mewn dos gymharol isel gan fferyllwyr sydd â chymhwyster proffesiynol sy'n medru sicrhau bod y cyffur yn cael ei werthu'n briodol.

Noddi Ymchwil i Ganser Supporting Cancer Research

Q8 Lorraine Barrett: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to in Wales? (OAQ39126)

C8 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i noddi ymchwil i ganser yng Nghymru? (OAQ39126)

Jane Hutt: The Welsh Assembly Government is committed to cancer research and supports several major initiatives such as the Wales cancer bank, the Wales cancer trials network and the Wales gene park. In addition, the Assembly supports a number of smaller cancer research grants and contributes to

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ymchwil canser ac yn cefnogi sawl menter bwysig, megis banc canser Cymru, rhwydwaith ymchwil canser Cymru a pharc geneteg Gymru. Yn ogystal â hynny, mae'r Cynulliad yn cefnogi nifer o grantiau llai ar gyfer

the national prevention research initiative.

ymchwil i ganser ac yn cyfrannu at y fenter ymchwilio cenedlaethol i atal canser.

Arthritis ac Iechyd a Lles Cyhyrysgerbydol Arthritis and Musculoskeletal Health and Wellbeing

Q9 Ann Jones: When does the Minister anticipate launching the consultation on the draft arthritis and musculoskeletal health and wellbeing policy and action plan for Wales? (OAQ39107)

C9 Ann Jones: Pryd mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd yn lansio'r ymgynghoriad ar y polisi a'r cynllun gweithredu drafft ynghylch arthritis ac iechyd a lles cyhyrysgerbydol yng Nghymru? (OAQ39107)

Jane Hutt: The production of a final draft for consultation is planned for the end of this year, with completion of the final document by March 2005.

Jane Hutt: Y bwriad yw llunio drafft terfynol erbyn diwedd eleni, a chwblhau'r ddogfen derfynol erbyn Mawrth 2005.

Gwasnaethau Deintyddol yn Alun a Glannau Dyfrdwy Dental Services in Alyn and Deeside

Q10 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement regarding dental services in Alyn and Deeside? (OAQ39138)

C10 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch gwasanaethau deintyddol yn Alun a Glannau Dyfrdwy? (OAQ39138)

Jane Hutt: I recently announced £5.3 million over the next three years to improve access to NHS dentistry and support the implementation of the new dental contract and associated reforms. Flintshire Local Health Board was one of six LHBs allocated £85,000 on a recurring basis after being identified as an area requiring additional assistance to improve access to NHS dentistry.

Jane Hutt: Yn ddiweddar, cyhoeddais £5.3 miliwn dros y dair blynedd nesaf i wella mynediad i ddeintyddiaeth y GIG a chynorthwyo'r gwaith o weithredu'r contract deintyddol newydd a diwygiadau cysylltiedig. Yr oedd Bwrdd Iechyd Lleol sir y Fflint yn un o'r chwe Bwrdd Iechyd Lleol a fydd yn derbyn £85,000 ar sail reolaidd ar ôl cael ei nodi fel ardal a fydd angen cymorth ychwanegol i wella mynediad tuag at ddeintyddiaeth GIG.

Lefelau MRSA MRSA levels

Q11 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on comparable levels of MRSA across Wales? (OAQ39165)

C11 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cymharol MRSA ledled Cymru? (OAQ39165)

Jane Hutt: As part of the existing bacteraemia reporting scheme, data on all infections are routinely collected from all trusts in Wales and published on the National Public Health Service website. They collect a range of useful data, which include information on rates of MRSA. Trusts have used this as a vehicle to identify issues and to drive improvement. The latest data published by the NPHS show that the highest rate in Wales is half that of the highest rate in England.

Jane Hutt: Fel rhan o'r cynllun cofnodi presennol ar facteremia, cesglir data ar bob haint yn rheolaidd gan bob ymddiriedolaeth yng Nghymru ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Maent yn casglu ystod o ddata defnyddiol, sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfraddau MRSA. Mae ymddirielodaethau wedi defnyddio hyn fel modd o nodi materion ac i sicrhau gwelliant. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr NPHS yn dangos bod y gyfradd uchaf yng Nghymru hanner y ffigur o gymharu â'r gyfradd uchaf yn Lloegr.

Iechyd Deintyddol i Blant Children's Dental Health

Q12 William Graham: Will the Minister make a statement on child dental health in Wales? (OAQ39149)

C12 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar iechyd deintyddol plant yng Nghymru? (OAQ39149)

Jane Hutt: The Assembly Government is investing considerable sums of money into initiatives and schemes to improve the dental health of our young children. It is important that children and their families adopt healthy lifestyle practices, such as a balanced diet and regular tooth brushing with fluoride toothpaste. Encouraging good health at a young age will prevent oral health problems in later life.

Jane Hutt: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi symiau sylweddol o arian mewn mentrau a chynlluniau ar gyfer gwella iechyd deintyddol ein plant ieuengaf. Mae'n bwysig bod plant a'u teuluoedd yn arddel arferion iach yn eu ffordd o fyw, megis dilyn deiet cytbwys a glanhau dannedd yn rheolaidd gyda phast dannedd sy'n cynnwys fflworid. Bydd annog iechyd da ymhlith yr ifanc yn atal trafferthion iechyd y geg yn nes ymlaen yn eu hoes.

Siarter Metronau The Matron's Charter

Q13 William Graham: Will the Minister make a statement on the introduction of the matron's charter? (OAQ39148)

C13 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno siarter metronau? (OAQ39148)

Jane Hutt: Hospital hygiene is being monitored by teams that include community health council representatives, and findings are discussed directly with the trust concerned. 'Healthcare Associated Infections—A Strategy for Hospitals in Wales' was launched on 9 September 2004, which, again, places responsibility on all staff to ensure that good infection control procedures are in place.

Jane Hutt: Caiff hylendid ysbytai ei fonitro gan dimau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau iechyd cymuned, a thrafodir y canfyddiadau yn uniongyrchol gyda'r ymddiriedolaeth dan sylw. Lanswyd 'Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd—Strategaeth i Ysbytai yng Nghymru' ar 9 Medi 2004, sydd, unwaith eto, yn rhoi'r cyfrifoldeb ar bob aelod staff i sicrhau bod gweithdrefnau da o ran rheoli heintiau yn cael eu rhoi ar waith.

Manteisio ar Gymhorthion Clyw Digidol Take Up of Digital Hearing Aids

Q14 Ann Jones: Further to the Ministers answer to OAQ38027, can the Minister detail the take-up of digital hearing aids in each of the three NHS Wales regions? (OAQ39106)

C14 Ann Jones: Mewn perthynas ag ateb y Gweinidog i OAQ38027, a wnaiff y Gweinidog roi manylion y nifer sydd wedi manteisio ar y cymhorthion clyw digidol ym mhob un o'r 3 rhanbarth GIG yng Nghymru? (OAQ39106)

Jane Hutt: The collection of statistics regarding the monthly issue of digital hearing aids to patients on an NHS trust-by-trust basis first began in July 2003. At that time, approximately 15,000 digital hearing aids had been issued across Wales. For the period of July 2003 to September 2004, the following number of digital hearing aids were issued by NHS trusts within each NHS Wales region:

Jane Hutt: Ym mis Gorffennaf 2003 y cychwynnodd y gwaith o gasglu ystadegau ynglŷn â nifer y cymhorthion clyw digidol a ddosberthir yn fisol i gleifion fesul ymddiriedolaeth GIG. Yr adeg honno, yr oedd tua 15,000 o gymhorthion clyw digidol wedi'u dosbarthu ar draws Cymru. Ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf 2003 a Medi 2004, mae nifer y cymhorthion clyw digidol a ddosbarthwyd gan ymddiriedolaethau GIG ym mhob un o ranbarthau GIG Cymru fel a ganlyn:

North Wales Region	9,241*	Gogledd Cymru	9,241*
Mid and West Wales Region	10,119*	Canolbarth a Gorllewin Cymru	10,119*
South and East Wales Region	13,881*	De a Dwyrain Cymru	13,881*

This means that over 48,000 patients in the past two years have benefited from a new digital hearing aid.

Golyga hynny bod mwy na 48,000 o gleifion wedi manteisio ar gymorthion clyw digidol newydd dros y ddwy flynedd diwethaf.

* Information collected directly by the Welsh Assembly Government from individual NHS trusts.

* Gwybodaeth wedi'i chasglu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ymddiriedolaethau GIG Cymru.

Hyfforddi a Chadw Bydwagedd yn y Gogledd Training and Retaining Midwives in North Wales

Q15 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on the training and retention of midwives in north Wales? (OAQ39109)

C15 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyfforddi a chadw bydwagedd yng ngogledd Cymru? (OAQ39109)

Jane Hutt: At September 2002, there were 280.19 whole-time equivalent midwives in post in the three north Wales trusts. At September 2003, some 6.3 per cent of midwives left these trusts, but over a third of these have remained in NHS Wales. During the same period, the numbers of midwives had increased to 299.15 WTE. There are currently no vacant midwifery posts in north Wales. The University of Wales, Bangor is currently developing a three-year midwifery degree course to commence within two years, widening the opportunity for non-nurses to become midwives. Midwifery training places at Bangor have been increased from 14 in 1999-2000 to 18 in 2004-05.

Jane Hutt: Ym mis Medi 2002, yr oedd 280.19 o fydwagedd cyfwerth amser llawn yn gweithio yn y tair ymddiriedolaeth yn y Gogledd. Erbyn mis Medi 2003, yr oedd tua 6.3 y cant o'r bydwagedd hyn wedi gadael yr ymddiriedolaethau hynny, ond mae mwy na thraean ohonynt wedi aros o fewn GIG Cymru. Dros yr un cyfnod, cododd nifer y bydwagedd i 299.15 CALI. Nid oes unrhyw swyddi gwag ar gyfer bydwagedd yn y Gogledd ar hyn o bryd. Mae Prifysgol Cymru, Bangor yn datblygu cwrs gradd tair blynedd ar gyfer bydwagedd ar hyn o bryd, gan ehangu'r cyfleoedd i'r rhai nad ydynt yn nyrsys gymhwyso fel bydwagedd. Mae nifer y lleoedd hyfforddi i fydwagedd ym Mangor wedi cynyddu o 14 yn 1999-2000 i 18 yn 2004-05.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cyllideb Portffolio Diwylliant The Culture Portfolio Budget

C10 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllideb y portffolio diwylliant? (OAQ39178)

Q10 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on the culture portfolio budget? (OAQ39178)

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae'r gyllideb ddrافت ar gyfer y tair blynedd nesaf yn dda ar gyfer fy mhortffolio. Bydd yn ein galluogi ni i gyflawni yn llwyr ein hymrwymadau yn 'Iaith Pawb', creu cyrchoedd ychwanegol at wella mynediad i ddiwylliant, a chynyddu cyfranogiad cyffredin o ymarfer corff drwy ddyblu cyllid chwaraeon dros dair blynedd.

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The draft budget for the next three years is a good one for my portfolio. It will enable us to meet fully our commitments in 'Iaith Pawb', make further inroads into improving access to culture, and increase widespread participation in physical activity by doubling funding for sport over three years.

Cynrychiolaeth Cymru ar Ofcom Wales's Representation on Ofcom

Q11 Michael German: What progress is the Minister making to ensure a strong voice and representation for Wales on Ofcom? (OAQ39078)

C11 Michael German: Pa gynnydd y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gael llais a chynrychiolaeth gref ar gyfer Cymru ar Ofcom? (OAQ39078)

Alun Pugh: The Communications Act 2003 includes provisions to ensure Welsh representation within the Office of Communications. However, the Welsh Assembly Government will also continue to represent Welsh interests in relation to broadcasting and will make its views known to Ofcom at every available opportunity.

Alun Pugh: Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn cynnwys darpariaethau i sicrhau cynrychiolaeth i Gymru o fewn y Swyddfa Gyfathrebu. Fodd bynnag, bydd Cynulliad Llywodraeth Cymru hefyd yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn perthynas â darlledu ac yn rhoi gwybod am ei barn i Ofcom pob cyfle sydd ar gael.

Llwyddiant yn y Gemau Paralympaidd Successes in the Paralympic Games

Q12 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government plans to build upon the successes of Welsh athletes in the Paralympics? (OAQ39185)

C12 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant athletwyr o Gymru yn y gemau Paralympaidd? (OAQ39185)

Alun Pugh: The Sports Council for Wales, which is sponsored by the Welsh Assembly Government, has extended its partnership with the Federation of Disability Sport Wales to ensure that it can build on the successes of Athens by supporting talented disabled competitors through a wide range of talent identification and development programmes.

Alun Pugh: Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ehangu'i bartneriaeth gyda Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru i sicrhau y gall adeiladu ar lwyddiant Athen drwy gefnogi cystadleuwyr anabl dawnus drwy ystod eang o raglenni adnabod doniau a datblygu.

Gwyllo Freeview Freeview Access

Q13 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on the Assembly Government's position on ensuring Freeview access to all households in Wales? (OAQ39089)

C13 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar safbwynt Llywodraeth y Cynulliad o ran sicrhau bod pob cartref yng Nghymru yn gallu cael mynediad i Freeview? (OAQ39089)

Alun Pugh: Broadcasting is not devolved to the National Assembly for Wales. The Welsh Assembly Government is however in regular discussion with the UK Government and with Ofcom in relation to broadcasting issues, including access to free-to-view digital television.

Alun Pugh: Nid yw darlledu wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, er hynny, yn cael trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU a chydag Ofcom o ran materion darlledu, gan gynnwys y gallu i dderbyn teledu digidol gwyllo-am-ddim.

Theatr Saesneg English-language Theatre

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on English-language theatre in Wales? (OAQ39097)

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar theatr drwy gyfrwng y Saesneg yng Nghymru? (OAQ39097)

Alun Pugh: The consultation period for the Peter Boyden report on the review of English-language theatre ended on 22 October 2004. I will be considering further strategic approaches to the development of English-language theatre in Wales in the light of the consultation responses.

Alun Pugh: Daeth y cyfnod ymgynghori ar ardroadiad Peter Boyden ar adolygiad o theatr Saesneg i ben ar 22 Hydref 2004. Byddaf yn ystyried ymagweddau strategol pellach tuag at ddatblygiad theatr Saesneg yng Nghymru yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Dyfodol Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad
The Future of Assembly Sponsored Public Bodies**

Q15 Michael German: Will the Minister make a statement on the future of ASPBs that fall within his portfolio? (OAQ39079)

C15 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, sy'n dod o fewn ei bortffolio? (OAQ39079)

Alun Pugh: We are presently reviewing the status of the cultural ASPBs as part of our programme of quango reform. We are carefully considering the issues raised by each of the bodies in their submissions to the review. The First Minister has made clear that final decisions will be made by the end of November.

Alun Pugh: Yr ydym yn adolygu statws y cyrff diwylliannol ar hyn o bryd fel rhan o'n rhaglen ar gyfer diwygio'r cwangos. Yr ydym yn ystyried y materion a godwyd gan bob corff yn eu cyflwyniadau i'r adolygiad yn fanwl. Mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir y gwneir y penderfyniad terfynol erbyn diwedd mis Tachwedd.